Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

**Nodyn cipolwg**
Medi 2025

# Cynnwys arbenigwyr â phrofiad bywyd mewn defnyddio gwybodaeth

## Myfyrdodau o ymchwil ac ymarfer

*gan Amanda Hill-Dixon*

# Cyflwyniad

Dros y 15 mlynedd diwethaf, fwy neu lai, ac wedi'u hysbrydoli yn rhannol gan enillion o bolisi iechyd a meddygaeth seiliedig ar dystiolaeth, mae ymdrechion i sicrhau bod tystiolaeth yn sylfaen i bolisi cyhoeddus wedi ehangu. Mae hyn i'w weld yn amlder yr amrywiaeth o Ganolfannau 'What Works' (WWCs)[1] neu 'sefydliadau brocera gwybodaeth', megis Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP), sy'n ceisio pontio'r bwlch rhwng ymchwil academaidd a pholisi drwy ysgogi tystiolaeth ar gyfer polisi ac ymarfer (MacKillop & Downe, 2022). Mae yna hefyd ystod ehangach o sefydliadau brocera gwybodaeth[2] y tu hwnt i'r Rhwydwaith What Works sy'n ysgogi tystiolaeth ar gyfer polisi ac ymarfer.

Yn draddodiadol, mae canolfannau What Works a sefydliadau brocera gwybodaeth eraill wedi canolbwyntio ar gysylltu llunwyr polisi ag arbenigwyr ymchwil academaidd a pholisi. Yn fwy diweddar, mae rhai sefydliadau wedi dechrau archwilio'r rôl y gall arbenigwyr yn sgîl eu profiad, neu'r rhai sydd â phrofiad bywyd uniongyrchol sy'n gysylltiedig ag agendâu neu flaenoriaethau polisi neu ymarfer, ei chwarae wrth ddefnyddio gwybodaeth ar gyfer polisi ac ymarfer. Mae hyn yn wahanol i'r rôl y mae pobl â phrofiad bywyd yn ei chwarae yn amlach fel cyfranogwyr ymchwil, trwy gyfrannu at y sylfaen dystiolaeth drwy rannu eu profiadau. Mae hefyd yn wahanol i 'arbenigedd a ddysgwyd', y mae pobl fel academyddion a llunwyr polisïau, yn ei ennill trwy astudio neu waith. Mae gan lawer o bobl ryw raddau o arbenigedd bywyd ac arbenigedd a ddysgwyd, a gall osgoi dull deuaidd fod yn ddefnyddiol.

Fodd bynnag, er gwaethaf dulliau mwy sefydledig o gynnwys arbenigwyr yn sgîl eu profiad mewn defnyddio gwybodaeth yn gysylltiedig â pholisi iechyd,[3] mae hyn yn parhau i fod yn ddatblygiad sy'n dod i'r amlwg o ran defnyddio gwybodaeth mewn meysydd polisi eraill. Mae safbwyntiau ac arferion gwahanol ar draws sefydliadau brocera gwybodaeth. Er bod tua hanner y canolfannau What Works wedi cynnwys arbenigwyr yn sgîl eu profiad yn eu gwaith, nid yw hyn yn ymddangos yn *What Works Network Strategy* y Tasglu Gwerthuso (2023).

Er mwyn cryfhau ymarfer yn y maes hwn, mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) wedi arwain prosiect unigryw fel rhan o Gymrodoriaeth Arloesi Polisi What Works ESRC[4] i archwilio'r ffordd orau y gall arbenigwyr yn sgîl eu profiad gymryd rhan mewn defnyddio gwybodaeth. Fe wnaeth gweithgor o ganolfannau What Works a sefydliadau brocera gwybodaeth gynghori ar, a chefnogi'r, prosiect hwn.[5]

I ateb y cwestiynau hyn, gwnaethom:

- adolygiad cyflym o'r dystiolaeth bresennol (Crompton et al., 2025);
- cyfweld â 25 o froceriaid gwybodaeth ar lefelau amrywiol ac o ystod o arbenigeddau polisi (Nayak et al., 2025) a;
- chwblhau dau brosiect ymchwil myfyriol mewn canolfannau What Works. Mae'r Nodyn Cipolwg hwn yn dwyn ynghyd ddysgu allweddol o bob rhan o'r ymchwil hon, ynghyd â safbwyntiau o ymarfer WCPP ei hun, i sefydliadau brocera gwybodaeth ddysgu ohonynt.

Canfuom fod amrywiaeth o risgiau a heriau sylweddol – o safbwyntiau gwyddonol a chyfranogol – sy'n gysylltiedig â chynnwys arbenigwyr yn sgîl eu profiad mewn defnyddio gwybodaeth. Ond pan gaiff ei reoli'n ofalus o dan yr amgylchiadau cywir, gall arbenigwyr yn sgîl eu profiad wella effaith ymdrechion defnyddio gwybodaeth yn sylweddol a hefyd helpu i wneud y broses yn fwy teg, amrywiol a chynhwysol (EDI), yn unol ag uchelgais UKRI i greu system ymchwil ac arloesi 'gan bawb, i bawb' (UKRI, 2023).

1 Mae Rhwydwaith What Works UK (WWN) yn cynnwys tair canolfan dystiolaeth ar ddeg sy'n ymroi i ddefnyddio ymchwil i lywio polisi ac ymarfer. Maent yn amrywiol o ran eu nodau a'u dulliau ond yn rhannu cenhadaeth gyffredin i alluogi llunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

2 Er enghraifft, mae'r [Ganolfan Tystiolaeth Polisi (PEC) Caethwasiaeth Fodern](#) yn un sefydliad o'r fath.

3 Gweler, er enghraifft, y canllaw hwn gan NIHR: Swaithes, L. (2024) How to involve the public in knowledge mobilisation: insights from the NIHR. NIHR Evidence. doi: 10.3310/nihrevidence_62360. Ar gael yn: https://evidence.nihr.ac.uk/collection/how-to-involve-the-public-in-knowledge-mobilisation/

4 Y Cymrawd oedd Dr Rounaq Nayak a gefnogwyd gan y Cynorthwywyr Ymchwil, Dr Katie Crompton a Dr Alex Jones.

5 Yn ogystal â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, roedd gweithgor y Gymrodoriaeth yn cynnwys: Youth Futures Foundation, y Centre for Homelessness Impact, y Centre for Ageing Better, Canolfan Tystiolaeth Polisi Caethwasiaeth Fodern a'r Arsyllfa Polisi Cyhoeddus Rhyngwladol.

## Gwerth cynnwys arbenigwyr yn sgîl eu profiad mewn defnyddio gwybodaeth — pam gwneud hyn?

Gall arbenigwyr yn sgîl eu profiad ddod â ffurf unigryw o arbenigedd i gryfhau a gwella'r defnydd o wybodaeth ac, yn y pen draw, gwella faint sy'n ymgymryd â thystiolaeth a'i chymhwyso ymhlith llunwyr polisi ac ymarferwyr. Nodwyd amrywiaeth o seiliau rhesymegol dros y dull hwn drwy'r cyfweliadau a'r llenyddiaeth bresennol.

### Adnabod problemau, fframio a chwmpasu

Gall arbenigwyr yn sgîl eu profiad helpu i sicrhau bod y materion y mae sefydliadau brocera gwybodaeth (a llunwyr polisïau) yn canolbwyntio arnynt yn cyd-fynd â phrofiadau a blaenoriaethau o'r byd go iawn. Gall arbenigwyr yn sgîl eu profiad ychwanegu gwerth fel hyn ar lefel sefydliadol, rhaglen neu brosiect.

***'Mae'n fy helpu i feddwl am fy ymchwil yn wahanol. Mae'n fy helpu i feddwl am gwestiynau gwahanol'.***

*(Cyfranogwr 19)*[6]

***'Mae gweithio gydag arbenigwyr yn sgîl eu profiad ar draws prosiectau yn ein galluogi i ddatblygu ein pileri strategol a'n hamcanion.'***

*(Cyfranogwr 7)*

### Cyd-greu casgliadau, cipolygon a chanfyddiadau mwy cadarn a dilys

Mae rhai broceriaid gwybodaeth wedi canfod y gall cynnwys arbenigwyr yn sgîl eu profiad wrth greu casgliadau, cipolygon a chanfyddiadau eu helpu i'w gwneud yn fwy 'cadarn' (Willis et al., 2024), cryfhau eu 'hansawdd a'u perthnasedd' (Redman et al., 2021), a gwella ymddiriedaeth yn y canfyddiadau (Beames et al., 2021). Gallant helpu sefydliadau brocera gwybodaeth i archwilio sut y gall cipolygon o dystiolaeth fod yn berthnasol yn eu cyd-destun penodol neu beidio.

Yn wir, os ydym yn derbyn nad yw defnyddio gwybodaeth yn weithred niwtral a'i fod, mewn gwirionedd, yn chwarae rôl wrth adnabod problemau, fframio problemau, a dyfarnu 'beth sy'n cyfrif fel tystiolaeth ar gyfer polisi' (MacKillop et al., 2023), yna gellir ystyried bod eu rhan mewn defnyddio gwybodaeth yn rhan bwysig bosibl o'r broses llunio polisïau ehangach.

***'Mae arbenigwyr yn sgîl eu profiad yn ein helpu i weld goblygiadau ein gwaith yn y byd go iawn a mireinio'r casgliadau rydym yn dod iddynt o'n hymchwil.'***

*(Cyfranogwr 1)*

***'Mae arbenigwyr yn sgîl eu profiad yn helpu i drosi canfyddiadau yn rhywbeth sy'n gwneud synnwyr i'r bobl sydd ei angen fwyaf. Hebddynt, efallai na fydd canfyddiadau ymchwil yn atseinio â'r gynulleidfa fwriadedig.'***

*(Cyfranogwr 3)*

---

6 Drwy gydol y Nodyn Cipolwg hwn, oni nodir yn wahanol, mae'r holl ddyfyniadau yn deillio o'r adroddiad Cymrodoriaeth hwn yn seiliedig ar gyfweliadau 25 cyfweliad gyda sefydliadau brocera gwybodaeth a chanolfannau tystiolaeth: Nayak, R., Crompton, K. & Hill-Dixon, A. 2024. Involving experts-by-experience in knowledge mobilisation: Analysis of interviews with What Works Centres and evidence centres. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Ar gael yn: https://doi.org/10.54454/25092202

## Allbynnau, cyfathrebu a lledaenu

Gall arbenigwyr yn sgîl eu profiad gyfrannu at ddatblygu allbynnau mwy hygyrch a deniadol a chyfathrebu a lledaenu'r rhain.

***'Rydym yn tueddu i ddibynnu ar dermau mwy academaidd, ac mae popeth mor gymhleth. Mae ein hymchwilwyr profiadau bywyd wir yn gwneud i ni symleiddio pethau.'***

*(Cyfranogwr 14)*

***'Mae arbenigwyr yn sgîl eu profiad yn ein helpu i feddwl y tu hwnt i adroddiadau academaidd traddodiadol. Maent yn awgrymu defnyddio adrodd straeon, cymhorthion gweledol, a gwahanol fformatau cyfryngau sy'n gwneud canfyddiadau yn fwy deniadol a hygyrch.'***

*(Cyfranogwr 7)*

***'Pan fyddwn yn cynnal digwyddiadau a phan fyddwn yn gwneud gwerthusiad o'r digwyddiad, rydym yn aml yn canfod bod y cynnwys yn cael ei werthfawrogi'n fwy gan ein cynulleidfa pan roedd arbenigwyr â phrofiad bywyd yn cymryd rhan.'***

*(Cyfranogwr 2)*

## Effaith ar bolisi a gwneud penderfyniadau

Mae cynnwys arbenigwyr yn sgîl eu profiad mewn defnyddio gwybodaeth yn cynnig y potensial i wella ymgysylltiad ymysg llunwyr polisïau ac ymarferwyr, ac yn y pen draw, sut maent yn ymgymryd â thystiolaeth a'i defnyddio. Mae ymchwil flaenorol wedi canfod bod cynnwys arbenigwyr yn sgîl eu profiad yn arwain at 'drosglwyddo tystiolaeth yn fwy effeithiol i ymarfer' Fitzpatrick et al. (2023, t. 1739), gan amlygu'r potensial am ledaenu a throsi ymchwil yn ehangach ac yn fwy effeithiol (Beames et al., 2021).

***'Ni all gwneuthurwyr polisi ar eu pennau eu hunain ddatrys heriau mawreddog... mae cynnwys cyhoedd amrywiol a'u profiad bywyd yn galluogi casgliadau rhesymol'.***

***(Cyfranogwr 18)***

Fel partner polisi, dywedodd un o'r Canolfannau What Works:

***'Rwy'n credu mai ei natur drylwyr sy'n arwyddocaol. Fel arfer, byddem yn dweud bod hwn yn ddarn gwych o ymchwil, nawr mae angen i ni siarad â phobl sydd â phrofiad bywyd a swyddogion polisi, ond roedd yn teimlo fel bod yr adroddiad hwn yn cynnwys hynny i gyd felly roeddem yn gallu symud y cyfan yn ei flaen fel yr oedd'.***

Yn ogystal, mae rhai yn dadlau bod cynnwys 'defnyddiwr' terfynol polisi neu wasanaeth mewn prosiectau defnyddio gwybodaeth yn debygol o wella'r cynnyrch neu'r gwasanaeth hwnnw ar gyfer y 'defnyddiwr' (Willis et al., 2024).

## Moeseg, grymuso a democratiaeth

O'i wneud yn ofalus, gall cynnwys arbenigwyr yn sgîl eu profiad mewn defnyddio gwybodaeth helpu i hyrwyddo mwy o gynhwysiant, amrywiaeth a thegwch wrth lunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a thrwy hynny wella safonau moesegol (Beames et al., 2021) a helpu mynd i'r afael â ffurfiau o anghyfiawnder epistemig lle dim ond mathau gwyddonol o arbenigedd sy'n cael eu trin yn rhai dilys (Fricker, 2007). Dadleuir hefyd, fel rhan o resymeg democrataidd, y dylai dinasyddion gael hawl i gymryd rhan mewn prosesau 'sy'n anelu at eu cynrychioli a/neu fynd i'r afael â'u buddiannau' (Fitzpatrick et al, 2023, t.2).

Hefyd, o'i reoli'n ofalus, gall cymryd rhan mewn defnyddio gwybodaeth gynnig manteision seicolegol cadarnhaol ac ymdeimlad o rymuso i arbenigwyr yn sgîl eu profiad:

***'Mae budd therapiwtig teimlo bod rhywun wedi gwrando arnoch chi.'***

*(Cyfranogwr 21)*

***'Nid grŵp cymorth ydym ni, rydym yn grŵp cynghori ymchwil, ond rwy'n gwybod bod pobl... yn elwa cymaint o wneud y math yma o waith hefyd, yn enwedig pan maen nhw wedi cael amgylchiadau anodd iawn.'***

*(Cyfranogwr 17)*

Fel y mae'r dyfyniad olaf hwn yn ei awgrymu, nid y prif nod wrth wraidd cynnwys arbenigwyr yn sgîl eu profiad yng ngwaith sefydliadau brocera gwybodaeth yw 'cefnogi' cyfranogwyr na gwella eu bywydau; nid sefydliadau cymorth 'rheng flaen' yw sefydliadau brocera gwybodaeth, yn hytrach, maent yn anelu at wella canlyniadau i gymunedau trwy bolisi ac ymarfer. Serch hynny, mae'n amlwg y gall arbenigwyr yn sgîl eu profiad ennill llawer iawn o weithio gyda sefydliadau brocera gwybodaeth.









## O dan ba amgylchiadau y dylem neu na ddylem gynnwys arbenigwyr profiad bywyd?

Gall cynnwys arbenigwyr yn sgîl eu profiad gael ei ystyried yn ‘ddewis o ran ymarfer’ gan sefydliadau brocera gwybodaeth. Yn hytrach na’u bod o reidrwydd yn cael eu cymhwyso ym mhob prosiect, mae angen i froceriaid gwybodaeth ystyried yn ofalus a yw amgylchiadau penodol neu anghenion tystiolaeth yn debygol o wneud dull cyfranogol yn foesegol, yn ymarferol a/neu yn ystyrlon. Mae angen ystyried hyn o’r cychwyn cyntaf. Fel yr amlygwyd yn ein hadolygiad cyflym (Crompton et al, 2025, t.18), mae’n debygol y bydd angen bodloni’r ‘amodau’ canlynol er mwyn argymell y dull hwn:

- Mae yna **bobl neu grwpiau** penodol sydd wedi byw profiad yn gysylltiedig â’r mater neu’r maes polisi dan sylw.
- Mae **diben clir** dros gynnwys arbenigwyr yn sgîl eu profiad; nid yw’n cael ei wneud ‘dim ond er mwyn gwneud’ neu fel proses ‘ticio blychau’ (y gellir ystyried mai tocenistiaeth yw hynny).
- Mae **digon o hyblygrwydd a bod yn agored** yn y rhaglen, y prosiect neu’r broses i alluogi arbenigwyr yn sgîl eu profiad i lywio’r siâp neu’r canlyniad.
- Mae **digon o adnoddau** (ariannol, staff, amser, sgiliau) i alluogi cyfranogiad effeithiol, moesegol a dilys.

***“Fe wnaethon ni brosiect dros ryw fis yr haf diwethaf… doedd gennym ddim amser i gynnwys arbenigwyr yn sgîl eu profiad yn ystyrlon.”***

*(Cyfranogwr 19)*

Mae’n debygol y bydd cynnwys arbenigwyr yn sgîl eu profiad yn barhaus a/neu yn fanwl yn gofyn am adnodd sylweddol, ac felly mae’n annhebygol y byddai llawer o sefydliadau brocera gwybodaeth yn gallu defnyddio’r dull hwn ar draws pob prosiect.

Yn hytrach, dylai sefydliadau ystyried yn ofalus pa feysydd gwaith sy’n gofyn ac yn caniatáu am gynnwys arbenigwyr yn sgîl eu profiad yn ystyrlon ac yn foesegol.

***‘Rwy’n credu y dylem ddewis y prosiectau yn ofalus [lle rydym yn cynnwys arbenigwyr yn sgîl eu profiad]… gallai fod yn rhan fawr o un neu ddau brosiect [mewn blwyddyn], mae’n debyg. Gallai wedyn lywio gweddill y prosiectau.’***

*(Cyfranogwr 6)*







# Eglurder ynglŷn â diben, rôl a lefel y cyfranogiad

Ffordd allweddol o sicrhau cyfranogiad moesegol ac ystyrlon yw sicrhau bod y diben a'r dull o gynnwys arbenigwyr yn sgîl eu profiad yn glir ymhlith broceriaid gwybodaeth, arbenigwyr ar sail eu profiad ac, os ydynt yn gysylltiedig, llunwyr polisïau neu ymarferwyr (Walker et al., 2021).

***'Yn anad dim, mae'n rhaid i'r ymwneud fod yn ystyrlon… Mae'n ymwneud â nodi cyfleoedd lle mae arbenigwyr yn sgîl eu profiad yn cael cyfle i lywio a dylanwadu ar y gwaith yr ydym yn ei wneud a chyfrannu ato mewn rhyw ffordd.'***

*(Cyfranogwr 1)*

Yn ogystal, mae ein hymchwil yn awgrymu ei bod hi'n bwysig bod yn glir ac yn dryloyw ynglŷn â graddau'r cyfranogiad sy'n bosibl neu'n ddymunol mewn senario defnyddio gwybodaeth penodol. Mae sawl fframwaith y mae sefydliadau brocera gwybodaeth yn eu defnyddio i bennu hyn (e.e., Olwyn Cyfranogiad (Dooris & Heritage (2013) wedi'i addasu o Davidson (1998)).




**Ffigur 1: Olwyn Cyfranogiad (Dooris a Heritage, 2013)**

Nod rhai sefydliadau brocera gwybodaeth yw grymuso arbenigwyr yn sgîl eu profiad drwy fabwysiadu dull cydgynhyrchiol gan yr ystyrir yn aml fod hyn yn galluogi ymarfer 'trawsnewidiol'.

***'Os ydym yn cynnwys y profiad hwnnw mewn ffordd effeithiol, rydym yn dosbarthu'r pŵer hierarchaidd ar draws ein cymunedau i ddylanwadu ar hynny a'i wneud yn well i bob un ohonom.'***

*(Cyfranogwr 24)*

Fodd bynnag, nid yw gweithredu mewn ffordd rymusol neu gyd-gynhyrchiol bob amser yn bosibl nac yn ymarferol.

***'Mae'r olwyn cyfranogiad yn nodi lefelau amrywiol… roeddem yn cynnwys arbenigwyr yn sgîl eu profiad mewn llawer o wahanol ffyrdd - rhai roeddem yn eu cynnwys yn syth adeg y cam dylunio, mewn prosiectau eraill, roeddem yn eu cynnwys dim ond mewn monitro a darparu adborth.'***

***(Cyfranogwr 7)***

Pa lefel bynnag o gyfranogiad sy'n cael ei geisio, mae'n hanfodol bod sefydliadau brocera gwybodaeth yn dryloyw ac yn glir yn fewnol ac yn allanol ynghylch pa raddau o gyfranogiad y gallant ei alluogi mewn unrhyw senario benodol (Redman et al., 2021). Mae hwn yn ddimensiwn allweddol o ymarfer moesegol ac mae'n hanfodol er mwyn rheoli disgwyliadau arbenigwyr yn sgîl eu profiad a defnyddwyr tystiolaeth yn effeithiol.

***'Y peth cynta' wnes i oedd esbonio iddyn nhw beth allent a beth na allent ei newid. Rwy'n credu bod hynny'n wirioneddol bwysig fel nad oeddent yn meddwl y byddent yn gallu cyrraedd a chael eu siomi go iawn pan na allent sicrhau mwy o newid. A bod yn wirioneddol glir ynghylch beth roedd y prosiect yn mynd i'w wneud, a beth oedd cyfyngiadau'r prosiect.'***

*(Cyfranogwr 20)*

## Sut gall arbenigwyr yn sgîl eu profiad a sefydliadau brocera gwybodaeth weithio gyda'i gilydd?

Datgelodd llenyddiaeth bresennol a'n cyfweliadau ystod eang ac amrywiol o ffyrdd y mae sefydliadau brocera gwybodaeth yn cynnwys arbenigwyr yn sgîl eu profiad yn eu gwaith, o ran ehangder, dyfnder, dulliau a diben. Mewn egwyddor, gallant gymryd rhan mewn unrhyw agwedd ar waith sefydliadau brocera gwybodaeth, er bod y rôl fwyaf priodol ar eu cyfer yn debygol o ddibynnu ar ystod o ffactorau. Isod, rydym yn amlygu rhai o'r prif ffyrdd y mae sefydliadau brocera gwybodaeth ac arbenigwyr yn sgîl eu profiad yn gweithio gyda'i gilydd.

### Recriwtio

Mae sefydliadau brocera gwybodaeth yn teilwra eu dulliau recriwtio i raddau a hyd y cyfranogiad, gyda chyfranogiad tymor hwy neu fwy manwl yn deilwng o brosesau recriwtio mwy strwythuredig, tryloyw ac weithiau cystadleuol (Nayak et al., 2025). Fel y gwelir yn gysylltiedig â heriau isod, mae elfen allweddol o hyn yn golygu ystyried pa fath o arbenigedd profiad bywyd, yn ogystal â mathau eraill o arbenigedd neu sgil, sydd eu hangen a sut i recriwtio ar gyfer amrywiaeth o safbwyntiau.

Amlygodd rhai cyfwelwyr bwysigrwydd 'cynefino' neu ymsefydlu er mwyn caniatáu i arbenigwyr yn sgîl eu profiad gyfrannu mor llawn â phosibl.

***'Mae angen llawer iawn o adnoddau i'w recriwtio, nid dim ond y broses recriwtio ond y broses gynefino hefyd, sy'n gwbl hanfodol, yn enwedig os ydych chi'n gweithio gyda phobl sydd yn draddodiadol heb eu grymuso.'***

*(Cyfranogwr 18)*

Yn yr un modd â recriwtio yn fwy cyffredinol, mae hyn yn amrywio yn dibynnu ar ehangder a dyfnder y cyfranogiad dan sylw.

### Cwmpasu a fframio problemau

Gall arbenigwyr yn sgîl eu profiad gyfrannu at gwmpasu, nodi blaenoriaeth a fframio problemau, gan helpu sefydliadau brocera gwybodaeth i archwilio pa faterion a chwestiynau y dylent ganolbwyntio arnynt.

***'Mae gweithio gydag arbenigwyr yn sgîl eu profiad yn ein helpu i weld a yw cwestiwn ymchwil yn gwneud synnwyr, p'un a yw'n rhywbeth y dylem ymchwilio ymhellach iddo… rydym yn ennill gwerth o wrando ar safbwynt gwahanol… mae'n fwy na dysgu o gwestiwn ymchwil academaidd neu gwestiwn ymchwil wedi'i yrru gan bolisi… rydym yn cael deall beth mae'n ei olygu i fod yn profi'r mater polisi ar yr eiliad hwnnw.'***

*(Cyfranogwr 4)*

Un enghraifft o hyn sy'n seiliedig ar ymarfer yw rhaglen waith WCPP ar **Stigma Tlodi**. Daeth hwn i fodolaeth ar ôl i arbenigwyr yn sgîl eu profiad amlygu ei fod yn ddimensiwn allweddol o dlodi, sy'n haeddu sylw. Yn benodol, tynnodd arbenigwyr yn sgîl eu profiad sylw at faich bod mewn tlodi i iechyd meddwl a rôl stigma tlodi wrth gysylltu iechyd meddwl gwael a thlodi.

Mae rhai sefydliadau brocera gwybodaeth wedi defnyddio methodolegau penodol i gynnwys arbenigwyr yn sgîl eu profiad wrth gwmpasu a diffinio problemau. Er enghraifft, datgelodd yr adolygiad cyflym fethodoleg benodol Partneriaethau Pennu Blaenoriaethau, sy'n cynnwys yr ystod lawn o arbenigwyr a phartneriaid, a all fod yn rhan o bennu blaenoriaethau yn dilyn proses strwythuredig. Ymddengys bod hyn wedi'i ddefnyddio'n bennaf ym maes iechyd (Freebairn et al., 2022; Sinclaire et al., 2023).

Yn ogystal â helpu i ddiffinio problemau, heriau a blaenoriaethau, dywedodd sefydliadau brocera gwybodaeth hefyd y gall arbenigwyr yn sgîl eu profiad eu helpu i ystyried pa effaith y maent am ei chyflawni a beth y mae angen iddynt ei ddarparu i gyflawni'r nodau hynny.

## Ehangder a dyfnder

Mae rhai sefydliadau brocera gwybodaeth yn ceisio integreiddio a chynnwys arbenigwyr yn sgîl eu profiad drwy gydol eu gwaith ar bob lefel, gan gynnwys ar lefel llywodraethu.

***'Mae llawer ohono yn dibynnu ar ymgysylltu ac integreiddio arbenigwyr yn sgîl eu profiad yn eithaf cyson ym mhopeth rydym yn ei wneud… Mae'n set graidd o bum person sy'n rhan o bopeth a wnawn'.***

*(Cyfranogwr 14)*

Ar y llaw arall, weithiau mae arbenigwyr yn sgîl eu profiad yn ymwneud â defnyddio gwybodaeth ar gyfer gweithgareddau tymor byr, untro neu ad hoc, fel cymryd rhan mewn digwyddiad neu gyfrannu at flog (Nayak et al., 2025). Un o'r heriau gydag ymrwymiadau untro yw nad ydynt ynddynt eu hunain yn caniatáu am ddatblygu perthnasoedd dibynadwy sy'n allweddol i ymwneud yn effeithiol ac osgoi tocenistiaeth (Walker et al., 2021; Machin et al., 2023). Un ffordd y mae rhai sefydliadau brocera gwybodaeth wedi ceisio goresgyn y tensiwn hwn yw trwy ddatblygu paneli neu rwydweithiau parhaus o arbenigwyr yn sgîl eu profiad, gan anelu at ddatblygu perthnasoedd dibynadwy a chilyddol â hwy yn seiliedig ar ddealltwriaeth y ddwy ochr. Yna, gall sefydliadau brocera gwybodaeth wahodd aelodau'r panel i gyfrannu at brosiectau unigol ar sail untro, gan elwa o berthynas barhaus drwy'r panel neu'r rhwydwaith.

***'Rydym yn dibynnu ar ein rhwydwaith arbenigwyr yn sgîl eu profiad. Mae ein rheolwr ymwneud yn arwain ar hyn. Mae'n rhwydwaith o unigolion sydd wedi ymwneud â ni drwy brosiectau eraill neu mewn rhyw rinwedd arall o fewn y Ganolfan… rydym wedi sefydlu'r rhwydwaith hwn i gadw mewn cysylltiad â phobl rydym wedi gweithio gyda nhw ar brosiectau penodol…'***

*(Cyfranogwr 1)*

Mae paneli neu rwydweithiau yn debygol o weithio'n arbennig o dda pan fyddant yn canolbwyntio ar fater neu ddemograffig penodol ac, weithiau, gall sefydliadau brocera gwybodaeth fanteisio ar baneli neu rwydweithiau presennol sy'n cael eu rhedeg gan sefydliadau arbenigol, yn aml yn y gymuned.

## Ymchwil, synthesis tystiolaeth a defnyddio gwybodaeth

Gall arbenigwyr yn sgîl eu profiad hefyd gyfrannu at ymchwil, synthesis tystiolaeth a defnyddio gwybodaeth ei hun. Ym mhen manylach a mwy grymusol/cyd-gynhyrchiol y sbectrwm, weithiau, mae arbenigwyr yn sgîl eu profiad yn cymryd rhan fel ymchwilwyr cymheiriaid neu gyd-ddadansoddwyr trwy gydol prosiect.

***'Mae gennym astudiaethau penodol lle mae ymchwilwyr profiad bywyd yn rhan o'r tîm ymchwil… gan gynnig dulliau hyfforddiant ac ymchwil, eu cynnwys fel rhan o'r tîm, cyfrannu at ddadansoddi a lledaenu… felly mae gennym ychydig o gyhoeddiadau academaidd gydag ymchwilwyr profiad bywyd yn gyd-awduron iddynt.'***

*(Cyfranogwr 14)*

Mae rhai sefydliadau brocera gwybodaeth fel mater o drefn yn cynnwys arbenigwyr yn sgîl eu profiad yn y broses cydosod tystiolaeth. Er enghraifft, mae'r Ganolfan Gwybodaeth a Chydlynu Tystiolaeth ar gyfer Polisi ac Ymarfer (EPPI-Centre) yn eiriol dros y dull hwn ac maent wedi llunio canllaw sy'n manylu ar sut i fynd ati i wneud hyn (EPPI-Centre, 2007). Ar y llaw arall, mae arbenigwyr yn sgîl eu profiad weithiau'n chwarae mwy o rôl ymgynghorol, er enghraifft trwy roi sylwadau ar dermau chwilio, neu drwy wirio synnwyr a dilysu canfyddiadau.

***'Rydym yn ennill llawer o werth o'r cyd-destun a gwirio ein canfyddiadau ddwywaith… [mae arbenigwyr yn sgîl eu profiad yn ein helpu] i ddeall beth mae'n ei olygu i fod yn profi'r mater polisi ar yr eiliad hwnnw.'***

***(Cyfranogwr 4)***

Gall hyn helpu i gyd-destunoli canfyddiadau ac argymhellion sefydliadau brocera gwybodaeth trwy eu seilio yn realiti bywyd y bobl y mae'r materion sy'n cael eu hystyried yn effeithio arnynt. Fel yr archwiliwyd yn yr adran Gwerth uchod, gall arbenigwyr yn sgîl eu profiad hefyd chwarae rôl wrth helpu i ddatblygu allbynnau, ac wrth gyfathrebu a lledaenu gwybodaeth i lywio polisi ac ymarfer.

## Risgiau a heriau

Mae yna hefyd ystod o risgiau a heriau sy'n gysylltiedig, i arbenigwyr yn sgîl eu profiad, ac i sefydliadau brocera gwybodaeth. Fel yr amlinellwyd uchod, canfu ein hymchwil mai dim ond o dan amgylchiadau penodol ac yn unol ag egwyddorion ymarfer allweddol y dylai arbenigwyr yn sgîl eu profiad gael eu cynnwys.

### Damcaniaethau newid cyferbyniol

Her sylfaenol y mae sefydliadau brocera gwybodaeth ac arbenigwyr yn sgîl eu profiad yn debygol o ddod ar ei thraws wrth weithio gyda'i gilydd yw'r damcaniaethau newid sy'n aml yn wahanol, y gall gwaith pob grŵp orffwys arnynt. Mae'r ffynhonnell hon o wrthdaro mewn cyd-gynhyrchu i'w gweld o ran gwahanol werthoedd, gwybodaeth a dewisiadau; dosbarthu adnoddau, statws a phŵer yn anwastad; a disgwyliadau gwahaniaethol ynghylch canlyniadau (Gallagher a Scolobig, 2020).

Mae sefydliadau brocera gwybodaeth, yn ôl eu hunion natur, yn tueddu i weithredu ar sail theori newid technocratig sy'n nodi y dylai penderfyniadau polisi gael eu seilio, o leiaf yn rhannol, mewn arbenigedd a thystiolaeth empirig. Mae sefydliadau brocera gwybodaeth yn gweithio'n agos gyda systemau llywodraeth a phŵer sefydliadol presennol, ac o'u mewn, yn hytrach na cheisio newid y systemau hynny yn sylweddol. Mae'r dull hwn yn cymryd yn ganiataol bod polisïau rhesymegol sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn debygol o wella canlyniadau cymdeithasol.

I'r gwrthwyneb, mae llawer o arbenigwyr yn sgîl eu profiad sy'n ymwneud ag ymdrechion newid cymdeithasol yn aml yn cael eu trwytho mewn model newid cymdeithasol ar lawr gwlad sy'n tueddu i bwysleisio pŵer gweithredu cyfunol o'r gwaelod i fyny, i greu newid yn uniongyrchol mewn cymunedau a/neu i ymgyrchu a phwyso ar lywodraethau i newid polisïau o'r tu allan. Amlygodd un o'r sawl a gafodd eu cyfweld yr her hon wrth weithio gydag arbenigwyr yn sgîl eu profiad:

> ***'...rydych chi'n eithaf aml yn gweithio yn erbyn arferion biwrocrataidd traddodiadol neu strwythurau sefydliadol... felly rwy'n credu i wneud hynny'n dda, mae'n rhaid i chi fod yn ystwyth ac yn hyblyg tu hwnt, a throsglwyddo bob amser i'ch arbenigwr ar sail ei brofiad... nid yw hwn yn mynd i fod yn brosiect llinol...'***
>
> *(Cyfranogwr 15)*

Mae gan y ddwy ddamcaniaeth newid eu cryfderau a'u heriau. Mewn gwirionedd, nid yw'r sefyllfa wedi'i hollti cymaint ag y mae hyn yn ei awgrymu, gyda llawer o arbenigwyr yn sgîl eu profiad a sefydliadau brocera gwybodaeth yn gweld y gwerth mewn damcaniaethau newid, a gweithredu ar eu traws i raddau mwy neu lai. Gellir ystyried bod cynnwys arbenigwyr yn sgîl eu profiad mewn defnyddio gwybodaeth yn ymgais i feithrin theori newid hybrid sy'n gweithredu ar sawl lefel, o'r tu mewn a'r tu allan i systemau presennol, a thrwy dynnu ar sawl math o wybodaeth. Ond fel i ni ei archwilio isod, nid yw hyn heb ei heriau.





# Risgiau i arbenigwyr yn sgîl eu profiad

Mae amrywiaeth o risgiau sy'n wynebu arbenigwyr yn sgîl eu profiad wrth gymryd rhan mewn defnyddio gwybodaeth, ac mae angen i sefydliadau brocera gwybodaeth ystyried a mynd i'r afael â phob un ohonynt, yn aml ar y cyd ag arbenigwyr yn sgîl eu profiad.

### Risg cael eich 'gadael i lawr'

Un o'r rhesymau pam y gall cymryd rhan mewn defnyddio gwybodaeth apelio at arbenigwyr yn sgîl eu profiad yw oherwydd y potensial am yr effaith ar bolisi/ymarfer y gall y dull hwn ei gynnig drwy ymgysylltu'n agosach â llywodraethau o gymharu â chymryd rhan mewn ymchwil academaidd draddodiadol (sydd yn aml heb lwybr uniongyrchol i effaith). Gall fod temtasiwn ymhlith sefydliadau brocera gwybodaeth i (or-)bwysleisio'r potensial hwn am effaith fel rhan o'u hymdrechion ymgysylltu a recriwtio. Er y gallai fod mwy o botensial i gael effaith, ni ellir byth gwarantu hyn gan fod llawer o ffactorau sy'n gyrru gwneud penderfyniadau y tu hwnt i reolaeth sefydliadau brocera gwybodaeth. O'r herwydd, pwysleisiodd y rhai a gafodd eu cyfweld bwysigrwydd rheoli disgwyliadau newid ymhlith cyfranogwyr:

***'Mae angen i chi fod yn onest o'r dechrau am yr hyn sy'n bosibl a beth sydd ddim. Mae pobl yn buddsoddi yn yr hyn sy'n digwydd, ac os na allwch fynd â'r maen i'r wal neu os nad yw'r byd polisi yn ymateb, gall hynny deimlo fel brad'***

*(Cyfranogwr 18)*

Gall rheoli disgwyliadau o'r math hwn helpu i osgoi siom, sicrhau tryloywder llawn o'r cychwyn cyntaf, a chefnogi arbenigwyr yn sgîl eu profiad i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hymwneud (Hugh-Jones, et al., 2024; Walker et al., 2021). Dull arall posibl yw sicrhau llwybr diffiniedig ar effaith o gychwyn prosiectau (a gwneud hyn yn glir), gan ganiatáu i lwybrau annisgwyl at effaith ddod i'r amlwg neu gael eu defnyddio yn ystod prosiectau.

### Risg niwed emosiynol neu ail-drawmateiddio

Un o'r risgiau y mae arbenigwyr yn sgîl eu profiad yn eu hwynebu wrth gymryd rhan mewn defnyddio gwybodaeth sy'n gysylltiedig â materion polisi/ymarfer (anodd, yn aml), yw'r niwed emosiynol posibl a all ddeillio o (ail-) rannu profiadau personol a all arwain at ail-drawmateiddio. Ar ei waethaf, pan mae hyn o fudd i sefydliad brocera gwybodaeth, gall fod yn tynnu ar bobl neu gymryd mantais ohonynt.

***'Mae meddwl am sut rydym yn creu gofod diogel yn bwysig, gan fod y sgyrsiau hyn yn gallu bod yn ofidus, gan sbarduno... ystyriaethau ynghylch diogelu, creu mannau diogel ar gyfer sgwrs, yn enwedig gydag arbenigwyr, gan gynnwys pobl ifanc...'***

*(Cyfranogwr 4)*

Fel yr amlinellwyd gan Nayak et al. (2025), mae sawl ffordd o sicrhau bod niwed i arbenigwyr yn sgîl eu profiad yn cael ei osgoi. Dylid ystyried hyn fel rhan o fframwaith diogelu a moesegol sefydliadol ehangach, ac fel rhan o ddylunio a chynllunio prosiectau. Mae elfennau allweddol yn debygol o gynnwys:

- Hyfforddiant i staff ar ddiogelu ac ymarfer sy'n ystyriol o drawma;
- Prosesau cydsyniad gwybodus cadarn;
- Polisïau diogelu a moeseg (sy'n cael eu goruchwylio gan fwrdd moeseg neu debyg, yn ddelfrydol);
- Osgoi gofyn i arbenigwyr yn sgîl eu profiad 'ail-fyw' sgyrsiau anodd oni bai eu bod yn gwbl angenrheidiol, a dim ond gyda chydsyniad;
- Hwyluso profiadol a all greu mannau diogel a chefnogol; a
- Darparu gwasanaethau cymorth seicolegol os bydd angen e.e. cwnsela am ddim.

***'Rydym wedi cael hyfforddiant sefydliadol ar sicrhau diogelu ac ar ddulliau moesegol o adrodd straeon… gosod y sail… bod y ffiniau o fewn rhodd yr unigolyn hwnnw i'r gosod… dysgu rhai o'r sgiliau hwyluso hynny, am beth i'w wneud pan fydd arbenigwr yn teimlo'n arbennig o ofidus, trawmatig, blin…'***

*(Cyfranogwr 1)*

Un o fanteision moesegol posibl cynnwys arbenigwyr yn sgîl eu profiad fel cyd-gynhyrchwyr neu gynghorwyr o fewn prosesau defnyddio gwybodaeth, yn hytrach nag fel cyfranogwyr ymchwil, yw ei bod yn llai tebygol y bydd angen gofyn iddynt rannu eu profiadau personol yn uniongyrchol.

## Risg tynnu ar bobl neu docenistiaeth

Risg gysylltiedig arall sy'n wynebu arbenigwyr yn sgîl eu profiad wrth gymryd rhan mewn defnyddio gwybodaeth yw'r posibilrwydd y gallai hyn fod neu deimlo fel petai'n tynnu ar bobl neu'n docenistaidd. Disgrifiodd y bobl a oedd yn cael eu cyfweld fod arfer docenistaidd yn 'addurn' neu'n broses 'ticio blychau', sef y gwrthwyneb i arfer 'ystyriol'.

***'Cychwynnais broses yn fewnol i geisio gosod safbwynt ar bapur ynghylch pryd a sut a pham y gallem gynnwys arbenigwyr yn sgîl eu profiad yn ein gwaith… er mwyn osgoi sefyllfa lle gofynnwyd i ni wneud hynny mewn ffordd docenistaidd neu a oedd yn tynnu ar bobl neu'n cymryd mantais ohonynt…'***

*(Cyfranogwr 5)*

Mae rhai a gafodd eu cyfweld o'r farn bod cyfranogiad mwy ystyrlon yn cael ei gyflawni orau trwy rannu pŵer a gweithio'n gyd-gynhyrchiol:

***'… mae'n bwysig cael fframwaith wedi'i ddiffinio'n glir i sicrhau prosesau gwneud penderfyniadau a phŵer ar y cyd sy'n barhaol ac yn ystyrlon…'***

*(Cyfranogwr 1)*

Ffordd arall o helpu i liniaru yn erbyn tynnu ar bobl yw trwy sicrhau bod arbenigwyr yn sgîl eu profiad yn cael tâl am eu cyfraniadau fel rhan o berthynas gilyddol, er na fydd hyn yn ddigon ar ei ben ei hun.

***'Yn fy marn i, mae'n amlwg yn hanfodol eich bod yn ad-dalu pobl am eu hamser… Mae'n rhaid i chi feddwl am sut rydych chi'n gwneud hynny mewn ffordd nad yw'n arwain at ganlyniadau anfwriadol… Nid ydych yn effeithio ar daliadau budd-dal pobl, er enghraifft…'***

*(Cyfranogwr 5)*

Ymhlith yr heriau allweddol sy'n gysylltiedig â thâl y mae: cyllidebau cyfyngedig, creu cymhellion sy'n groes i'r graen, goblygiadau posibl i sefyllfa dreth a budd-daliadau pobl, a rhwystrau sefydliadol sy'n gysylltiedig â gweinyddu taliadau bach achlysurol. Mae amrywiaeth o adnoddau ar gael i gefnogi sefydliadau i ddatblygu polisïau tâl, megis Payment for Involvement Playbook (2023) y Social Change Agency.

Yn ogystal, mae rhai sefydliadau brocera gwybodaeth yn dewis talu arbenigwyr yn sgîl eu profiad trwy gymorth mewn nwyddau, yn hytrach neu yn ogystal â thaliadau arian parod neu dalebau. Gall cymorth o'r fath gynnwys hyfforddiant, mentora neu gredydau amser. Pa ddull bynnag y mae sefydliadau brocera gwybodaeth yn ei ddewis, mae'n bwysig bod yn dryloyw ac yn gyson o'r cychwyn cyntaf, ac yn ddelfrydol ystyried yr hyn sy'n well gan gyfranogwyr.

Ar y cyfan, dylai sefydliadau brocera gwybodaeth feddwl ynghylch sut i weithio gydag arbenigwyr yn sgîl eu profiad mewn ffordd a fydd yn brofiad cadarnhaol a gwerth chweil iddynt, yn ogystal â bod yn fuddiol i'r sefydliad brocera gwybodaeth. Mae sicrhau cyfleoedd a dolenni adborth rheolaidd yn ffordd allweddol o ganfod i ba raddau y mae hyn yn wir a beth gellir ei wneud i wella ymarfer.

## Risgiau i sefydliadau brocera gwybodaeth a'u staff

### Cydbwyso profiadau unigol, amrywiaeth a chyffredinolrwydd

Wrth gynnwys arbenigwyr yn sgîl eu profiad, mae sefydliadau brocera gwybodaeth yn wynebu her cydbwyso a pharchu profiadau a safbwyntiau unigol, gyda'r angen iddynt ddatblygu tystiolaeth ac argymhellion sy'n berthnasol ar lefel poblogaeth.

***'Gall cymryd geiriau'r grŵp bach hwn o unigolion i olygu mai dyna'r dyluniad ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth fod yn anghywir… mewn gwirionedd, yr hyn a gawson nhw oedd enghraifft o grŵp bach iawn o brofiadau a bylchau pendant o ran dosbarth, hil, rhywioldeb'***

*(Cyfranogwr 24)*

Mae'r dyfyniad hwn yn adlewyrchu trafodaethau parhaus yn y gwyddorau cymdeithasol am fanteision a chyfyngiadau ymchwil feintiol o gymharu ag ymchwil ansoddol a rhwng paradeimau epistemolegol dehongliadwr ('interpretivist') a phositifydd ('positivist') (Guba a Lincoln, 1994). Gellir dadlau bod y trafodaethau hyn yn fwy perthnasol yn gysylltiedig â thystiolaeth o brofiad bywyd, yn hytrach nag o gynnwys arbenigwyr yn sgîl eu profiad mewn defnyddio gwybodaeth. Serch hynny, mae llawer o sefydliadau brocera gwybodaeth yn cydnabod her ceisio cynnwys a recriwtio ystod amrywiol ac eang o arbenigwyr yn sgîl eu profiad yn eu gwaith.

***'Mae yna drafodaeth fawr… ynghylch math o gynhwysiant amrywiaeth o ran cynnwys arbenigwyr yn sgîl eu profiad – rydym yn tueddu i gynnwys, ysgrifennu at, yr un bobl bob amser. Sut ydyn ni'n cyrraedd poblogaethau eraill fel ein bod ni'n cyflwyno math o amrywiaeth eang o safbwyntiau?'***

*(Cyfranogwr 14)*

***'Pan fyddwn yn recriwtio ein cyfranogwyr, mae'n bwysig iawn gwneud yn siŵr nad ydych ond yn cael y bobl sy'n gweiddi'n fwyaf croch…'***

*(Cyfranogwr 18)*

Nid oes 'datrysiadau cyflym' ar gyfer goresgyn yr her hon ac, yn syml, ni ellir cyflawni cyfranogiad cwbl gynrychioliadol trwy gymryd rhan ar y raddfa hon. Ond mae ein hymchwil yn amlygu pwysigrwydd bod yn feddylgar a phwrpasol ynghylch pa fathau o brofiadau a sgiliau y mae eu hangen, yn ogystal â'r rhwystrau a allai fod yn rhwystr i rai grwpiau a sut y gellir goresgyn y rhain. Er enghraifft, gellir troi at grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn nodweddiadol yn uniongyrchol a gellir mynd i'r afael â rhwystrau rhag cyfranogiad (megis gofal plant, trafnidiaeth, iaith neu hygyrchedd).

### Llywio gwahaniaethau

Un o nodweddion allweddol sefydliadau brocera gwybodaeth yw eu bod yn 'pontio' bydoedd polisi ac ymarfer ar y naill law, ac ymchwil ac arbenigedd ar y llaw arall. Mae sefydliadau brocera gwybodaeth yn gwneud hyn trwy ddeall cymhellion, ieithoedd a diwylliannau'r ddau fyd, a thrwy 'siarad' â'r ddwy gynulleidfa a 'throsi' ar eu cyfer fel cyfryngwr, i bob diben (Malin et al., 2020). Wrth gynnwys arbenigwyr yn sgîl eu profiad mewn defnyddio gwybodaeth, i bob diben, mae angen i sefydliadau brocera gwybodaeth weithredu gyda thri grŵp rhanddeiliaid allweddol a rhyngddynt, sy'n aml yn creu set llawer mwy cymhleth o ddeinameg perthynas i'w rheoli a'u llywio. Amlygodd yr adolygiad cyflym hyn o ran anghydbwysedd pŵer, rheoli gwahanol safbwyntiau a rhwystrau iaith. Gall fod yn anodd rheoli'r ddeinameg hyn mewn ffordd sy'n diwallu anghenion pawb ac yn cynnal perthnasoedd ymddiriedol (Crompton et al., 2025, t.34). Tynnwyd sylw at y mater hwn hefyd mewn cyfweliadau â sefydliadau brocera gwybodaeth.

***'Roedden nhw [llunwyr polisi] yn deall pethau'n wahanol… oherwydd rwy'n credu bod pobl mor gyfarwydd â'u ffordd o weithio… dydyn nhw ddim yn gweld pethau gyda chwilfrydedd mwyach na rhywun sydd, efallai, yn eu byw ac yn eu profi.'***

*(Cyfranogwr 21)*

***'Mae gallu darparu gwybodaeth mewn Saesneg plaen, gwirio bod pobl wedi ei deall yn hytrach na dim ond llofnodi dogfen, yn eithaf pwysig. Mae'n bwysig gwneud yr amser i wneud hynny.'***

*(Cyfranogwr 2)*

### Risgiau i staff sefydliadau brocera gwybodaeth

Gall hwyluso neu arwain prosesau cyfranogol gydag arbenigwyr yn sgîl eu profiad hefyd beri risgiau i staff sefydliadau brocera gwybodaeth.

Gall staff gael eu heffeithio'n emosiynol drwy glywed straeon trawmatig neu reoli cyfrifoldebau diogelu:

***'Fe wnaethon ni sylweddoli yn eithaf cyflym, os ydym yn mynd i wneud hyn yn iawn, mae angen i ni feddwl am y gefnogaeth i'n staff hefyd. Nid yw'n waith rhwydd. Rydych chi'n delio â bywyd pobl, eu trawma, eu straeon. Mae hynny'n aros gyda chi.'***

*(Cyfranogwr 14)*

O ystyried y llafur emosiynol y gall fod ei angen, amlygodd nifer a gymerodd ran yn y cyfweliadau bwysigrwydd darparu digon o gefnogaeth a hyfforddiant i staff:

***'Roedd angen hyfforddiant ar rai o aelodau ein tîm ar ddulliau sy'n ystyriol o drawma. Un peth yw bod yn ymchwilydd, peth arall yn gyfan gwbl yw bod yn fan diogel i brofiad rhywun arall."***

*(Cyfranogwr 20)*

Er mwyn cynorthwyo'r gwaith hwn ac i helpu i osgoi risgiau i staff, awgrymodd y rhai a gafodd eu cyfweld hefyd y gallai sefydliadau brocera gwybodaeth fod eisiau ystyried y sgiliau, y profiad a'r cymwyseddau perthnasol y mae eu hangen fel rhan o brosesau recriwtio.

## Casgliad

At ei gilydd, roedd ein hymchwil wedi canfod bod nifer cynyddol o sefydliadau brocera gwybodaeth yn cynnwys pobl sy'n arbenigwyr yn sgîl eu profiad yn eu gwaith oherwydd y gwerth y mae hynny'n ei roi i'r broses o baratoi gwybodaeth ac, yn y pen draw, oherwydd yr effaith mae hyn yn ei gael. I rai, mae'r cymhelliant yn fwy cynhenid ac yn seiliedig ar yr awydd i ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn eu harferion ac i fod yn ymarferol mewn modd mwy democrataidd.

Fodd bynnag, er gwaethaf y manteision posibl hyn, mae hefyd yn cyflwyno risgiau sylweddol posibl i bobl sy'n arbenigwyr yn sgîl eu profiad a sefydliadau brocera gwybodaeth. Ac felly, dylai'r dull hwn gael ei ddefnyddio o dan amodau penodol yn unig. Gall sefydliadau brocera gwybodaeth gymryd camau i feithrin yr amodau hynny os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny. A hefyd, dylai sefydliadau brocera gwybodaeth ystyried yr egwyddorion ymarfer canlynol wrth weithio gyda phobl sy'n arbenigwyr yn sgîl eu profiad.

- Ystyried a sicrhau **arferion moesegol** o ran diogelu, annibyniaeth, profiad, taliadau, cymorth a chaniatâd.
- Sicrhau **eglurder a thryloywder** ynglŷn â bwriad, rôl a lefel y cyfranogiad
- Sicrhau bod perthynas **ddwyochrog ac ar sail ymddiriedaeth** yn cael ei datblygu gyda phobl sy'n arbenigwyr yn sgîl eu profiad, fel eu bod yn cael profiad cadarnhaol
- Neilltuo **digon o adnoddau ac amser** ac ystyried y dull hwn o'r cychwyn cyntaf
- Sicrhau bod **llwybr at effaith** o'r cychwyn cyntaf
- Ystyried **cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant** o ran pwy sy'n gallu cymryd rhan, pam a sut.

Bydd angen i sefydliadau brocera gwybodaeth a sefydliadau sy'n eu hariannu barhau i ofyn i ni pa rôl maen nhw am i arbenigwyr yn sgîl eu profiad ei chwarae wrth ddefnyddio gwybodaeth a llunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Er mwyn iddo gyflawni ei botensial llawn, bydd angen mwy o fuddsoddiad yn y gwaith hwn, gan gynnwys neilltuo adnoddau i rannu arfer da ar draws sefydliadau brocera gwybodaeth.

# Cyfeiriadau


Beames, J., Kikas, K., O'Gradey-Lee, M., Gale, N., Werner-Seidler, A., Boydell, K., & Hudson, J., (2021). **A New Normal: Integrating Lived Experience Into Scientific Data Syntheses.** Frontiers in psychiatry, 12, 763005.

Crompton, K., Nayak, R. a Hill-Dixon, A. (2025) **Involving experts-by-experience in knowledge mobilisation: a rapid review.** Wales Centre for Public Policy. Ar gael yn: https://doi.org/10.54454/25092201

Davidson, S. (1998). **Spinning the wheel of empowerment.** Planning, 1262, pp. 14–15.

Dooris, M., & Heritage, Z. (2013). **Healthy cities: Facilitating the active participation and empowerment of local people.** Journal of Urban Health, 90(1), 74–91.

EPPI-Centre (2007) **EPPI-Centre Methods for Conducting Systematic Reviews. London: Social Science Research Unit, Institute of Education, University of London.** Ar gael yn: https://eppi.ioe.ac.uk/cms/Default.aspx?tabid=89 (Accessed: 31 March 2025).

Gallagher, Louise & Scolobig, Anna. (2020). **Understanding, Analysing and Addressing Conflicts in Co-production.** 10.1007/978-3-030-53705-0_32.

Guba, E.G. a Lincoln, Y.S. (1994) **'Competing paradigms in qualitative research**', in Denzin, N.K. and Lincoln, Y.S. (eds.) Handbook of Qualitative Research. Thousand Oaks, CA: Sage, pp. 105–117.

MacKillop, E., Connell, A., Downe, J. a Durrant, H. (2023) **'Making sense of knowledge-brokering organisations: boundary organisations or policy entrepreneurs?'**, Science and Public Policy, 50(6), pp. 950–960. https://doi.org/10.1093/scipol/scad029

Fitzpatrick, S. J., Lamb, H., Stewart, E., Gulliver, A., Morse, A. R., Giugni, M., & Banfield, M. (2023). **Co-ideation and co-design in co-creation research: Reflections from the 'Co-Creating Safe Spaces' project.** Health expectations: an international journal of public participation in health care and health policy, 26(4), 1738–1745.

Fricker, M. (2007). **Epistemic Injustice: Power and the Ethics of Knowing.** Oxford: Oxford University Press.

Machin, K., Shah, P., Nicholls, V., Jeynes, T., Trevillion, K. & Vera San Juan, N, (2023). **Co-producing rapid research: Strengths and challenges from a lived experience perspective.** Frontiers in Sociology, 8

MacKillop, E. a Downe, J. (2022) **Knowledge brokering organisations: A new way of governing evidence**, Evidence & Policy, 19:1, 22-41. Ar gael yn: https://doi.org/10.1002/rev3.3341

Malin, J. R. a Brown, C. (2020) **'The role of knowledge brokers in education: Connecting the multiple worlds of research, policy and practice'**, Review of Education, 8(2), pp. 618–645.

Nayak, R., Crompton, K. a Hill-Dixon, A. (2025) **Involving experts-by-experience in knowledge mobilisation: Analysis of interviews with what works centres and evidence and research organisations.** Wales Centre for Public Policy. Ar gael yn: https://doi.org/10.54454/25092202

Redman, S., Greenhalgh, T., Adedokun, L., Staniszewska, S. & Denegri, S. (2021). **Co-production of knowledge: the future.** The BMJ, 372.

The Social Change Agency (2023) **Payment for involvement playbook.** Ar gael yn: https://thesocialchangeagency.org/resources/payment-for-involvement-playbook/

UK Research and Innovation (UKRI) (2023) **Equality, diversity and inclusion strategy 2022 to 2027**. Ar gael yn: https://www.ukri.org/publications/equality-diversity-and-inclusion-strategy-2022-to-2027/ (Accessed: 31 March 2025).

Walker, E., Shaw, L., Nunns, M., Moore, D. & Thompson Coon, J., (2021). **No evidence synthesis about me without me: Involving young people in the conduct and dissemination of a complex evidence synthesis.** Health Expectations. 24, 122–133.

Willis, R., Ainscough, J., Bryant, P., Goold, L., Livermore, M. & Tosal, C., (2024). **Citizen and specialist co-design of energy policy: The case of home energy decarbonization in the UK**. Environmental Science & Policy,155.




## Nodyn o ddiolch

Hoffai Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ddiolch i Dr Rounaq Nayak, Dr Katie Crompton a Dr Alex Jones am eu holl waith fel rhan o'r Gymrodoriaeth. Hoffem ddiolch hefyd i Sarah Campbell, Pennaeth Cyfranogiad Sefydliad Joseph Rowntree, a gynghorodd y prosiect hwn.

Hoffem ddiolch hefyd i aelodau'r gweithgor am eu cyngor, eu harbenigedd a'u harweiniad. Roedd hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Youth Futures Foundation, y Centre for Ageing Better, y Centre for Homelessness Impact, y Ganolfan Tystiolaeth Polisi Caethwasiaeth Fodern, yr Arsyllfa Polisi Cyhoeddus Rhyngwladol a Sefydliad Joseph Rowntree.


## Gwybodaeth am Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio ag arbenigwyr polisi arweiniol i ddarparu tystiolaeth o ansawdd uchel a chyngor annibynnol i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, sy'n eu helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau o ran polisi.

Mae'r Ganolfan, a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, Llywodraeth Cymru a Phrifysgol Caerdydd, wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n aelod o Rwydwaith What Works y DU.

## I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:


Amanda Hill-Dixon

+44 (0)29 2087 5345

info@wcpp.org.uk



**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**

Prifysgol Caerdydd, Sbarc | Spark
Heol Maendy, Caerdydd CF24 4HQ

www.wcpp.org.uk | 029 2087 5345

info@wcpp.org.uk | @WCfPP


Economic and Social Research Council

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd